**EITEM AR YR AGENDA: 13**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**21ain Mehefin 2010**

## ARCHWILIADAU DIOGELWCH TÂN YN Y CARTREF

**Adroddiad gan Richard Fairhead, Uwch Reolwr Diogelwch Tân**

## Diben yr Adroddiad


1 Hysbysu Aelodau o'r cyfanswm o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gyflawnwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ym mlwyddyn ariannol 2009/2010 a'r gwelliannau allweddol a wnaed i'r Gwasanaeth.

## Cefndir

2 Targed blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yw 30,000. Cyflwynwyd y targed yn dilyn cyhoeddi adroddiad Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân i Farwolaethau Tân Damweiniol yn y Cartref yn 2007. Dechreuodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wneud archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn 2001/2002 ac ar amser cyhoeddi adroddiad y Grŵp Gorchwyl, roedd tua 7,500 o archwiliadau yn cael eu gwneud bob blwyddyn. Mae'r nifer wedi cynyddu yn arw ers cyhoeddi'r adroddiad.

## Gwybodaeth

3 Fe wnaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 32,802 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn 2009/2010. Mae hyn yn parhau'r cynnydd yn y nifer o archwiliadau a wnaed yn flynyddol ar ôl ail ffocysu holl bersonél y Gwasanaeth yn dilyn cyhoeddiad adroddiad y Grŵp Gorchwyl.




4 Dyma'r dadansoddiad o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn ôl sir:

| | **2008/2009** | **2009/2010** |
|---|---|---|
| Conwy | **6084** | **6368** |
| Sir Ddinbych | **4692** | **4977** |
| Sir y Fflint | **4761** | **4998** |
| Gwynedd | **6041** | **6325** |
| Wrecsam | **4317** | **4532** |
| Ynys Môn | **5286** | **5602** |

Mae pob sir wedi dangos cynnydd yn erbyn y nifer a wnaed llynedd.

5 Cafodd yr Uwch Reolwr Diogelwch Tân gyllid ychwanegol i dalu i ddiffoddwyr tân rhan amser i wneud archwiliadau diogelwch tân yn y cartref ychwanegol; daeth y cyllid hwn o gyllideb tâl diffoddwyr tân dros dro oherwydd gostyngiad yn nifer y galwadau tân (£25,000) a gan y Cynulliad (£30,000). O ganlyniad i'r cyllid ychwanegol, gwnaed 5,500 o archwiliadau ychwanegol. Heb y chwistrelliad hwn o arian ni fyddai'r Gwasanaeth wedi llwyddo i gyrraedd targed yr Awdurdod Tân ac Achub.

6 Nid yw'r Gwasanaeth yn disgwyl i gyllid ychwanegol fod ar gael gan y Cynulliad yn y flwyddyn ariannol 2010/11 ac nid oes modd darogan os fydd cyllideb tâl diffoddwyr tân rhan amser yn caniatáu cyllid

ychwanegol, felly bydd angen i'r Gwasanaeth fod yn fwy effeithiol yn y ffordd mae'r archwiliadau yn cael eu darparu.

7 Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi gorfod ailddyrannu ei adnoddau i gyflawni'r nifer o archwiliadau a osodwyd yn darged gan yr Awdurdod ac er mwyn gwneud hyn mae'r Gwasanaeth wedi gorfod ail-werthuso effeithiolrwydd y digwyddiadau mae'r Gwasanaeth yn eu mynychu. O ganlyniad i'r gwerthusiad hwn, ni fydd y Gwasanaeth yn mynychu rhai digwyddiadau a fynychwyd yn y gorffennol. Dim ond nifer fechan o atgyfeiriadau am archwiliadau a geir o fynychu rhai o'r digwyddiadau, ac nid yw'r mwyafrif yn atgyfeiriadau o'r ansawdd rydym nawr yn anelu i'w gwneud.

8 O ganlyniad i ailstrwythuro swyddi criw'r Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr, cyflogwyd 5 ymarferydd ychwanegol i wneud archwiliadau diogelwch tân yn y cartref ym mis Medi 2009. Mae hyn wedi caniatáu i dargedau dyddiol y Gwylfeydd criwiau Llawn Amser a Dydd gael eu gostwng sy'n caniatáu mwy o amser i ddiffoddwyr tân ganolbwyntio ar hyfforddiant sgiliau craidd. Mae'r cynnydd yn y nifer o ymarferwyr wedi golygu cynnydd o 52% yn nifer yr archwiliadau a wnaed (o 5358 yn 2008/9 i 8168 yn 2009/10).

## Argymhellion

9 Fod Aelodau'n nodi:

(i) llwyddiant y Gwasanaeth – wedi rhagori ar darged yr Awdurdod Tân ac Achub a'r cynnydd yn nifer yr archwiliadau a gwblhawyd;
(ii) nad oes disgwyl y bydd cyllid ychwanegol ar gael eleni;
(iii) y cynnydd yn nifer yr archwiliadau sy'n cael eu gwneud gan ymarferwyr, a gyllidwyd o ailstrwythuro swydd criw'r Peiriant ag Ysgol ac Esgynlawr, - mae hyn wedi galluogi gostyngiad yn nharged y criwiau llawn amser a dydd;
(iv) fod y Gwasanaeth wrthi'n gwerthuso ei holl weithgareddau i sicrhau fod atgyfeiriadau o ansawdd yn cael eu casglu yn y digwyddiadau a fynychir.